# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**Dyddiad:** 28 Ionawr 2004
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
**Amser:** 9.00 am tan 12:30 pm
**Teitl:** Mesur Rheoli Traffig

## Pwrpas

1. Yn dilyn y ddadl ar Araith y Frenhines, mae'r Mesur Rheoli Traffig wedi'i gyfeirio i'r Pwyllgor hwn er mwyn iddo ystyried goblygiadau'r Mesur i Gymru.
2. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am roi cyngor ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 9.8.

## Crynodeb/Argymhellion

3. Pwrpas y papur hwn yw amlinellu prif ddarpariaethau'r Mesur Rheoli Trafnidiaeth ac i asesu goblygiadau'r Mesur i Gymru – mae goblygiadau posibl i'r heddlu, llywodraeth leol ac i Lywodraeth y Cynulliad.
4. Cafodd y mesur ei gyflwyno yn Nhy'r Cyffredin ar 11 Rhagfyr. Cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth ei adroddiad cychwynnol ar 19 Rhagfyr. Derbyniodd y mesur ei ail ddarlleniad ar 5 Ionawr a chaiff ei drafod yn y pwyllgor sefydlog yn ystod mis Ionawr/canol Chwefror.
5. Ni cheir cymalau penodol ar gyfer Cymru yn y mesur, ond mae'r pwerau i lunio canllawiau a gwneud rheoliadau yn y mesur wedi eu neilltuo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
6. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi sicrhau'r pwer i gychwyn y darpariaethau yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu prif amcanion y mesur, ond bydd yn ymgynghori yn eang cyn cychwyn y ddeddfwriaeth. Bydd y Cynulliad yn trafod â'r WLGA ynghylch goblygiadau i lywodraeth leol.

## Cefndir

7. Prif ddiben y Mesur yw lliniaru tagfeydd traffig a gwella llif traffig ar ffyrdd awdurdodau lleol a chefnffyrdd yng Nghymru a Lloegr.
8. Gellir rhestru prif ddarpariaethau'r mesur yn fras fel a ganlyn:

- Creu gwasanaeth traffig newydd ar gyfer cefnffyrdd

- Penodi rheolwyr traffig a chyfarwyddwyr traffig yn yr awdurdodau lleol
- Cryfhau pwerau'r awdurdodau lleol i gydlynu gweithfeydd stryd
- Pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol i orfodi troseddau traffig drwy'r llysoedd sifil

## Gwasanaeth Swyddogion Traffig Newydd ar gyfer y rhwydwaith gefnffyrdd

9. Bydd darpariaeth yn y mesur ar gyfer creu Gwasanaeth Swyddogion Traffig Newydd ar gyfer cefnffyrdd yng Nghymru a Lloegr. Bydd y swyddogion hyn yn meddu ar bwerau sy'n perthyn i'r heddlu a fydd yn eu galluogi i gyflawni swyddogaethau rheoli traffig sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni gan yr heddlu. Ymhlith y swyddogaethau hyn fydd rheoli llif traffig yn dilyn damwain car neu wedi i gar dorri lawr.

## Rheolwyr Traffig a Chyfarwyddwyr Traffig Newydd yn yr Awdurdodau Lleol

10. Mae'r rhan hon yn gosod dyletswydd ar Awdurodau Lleol i benodi rheolwyr traffig i sicrhau bod traffig yn symud yn hwylus ar ffyrdd yr awdurdodau lleol.
11. Bydd y rheolwr traffig yn sicrhau bod traffig yn symud yn hwylus drwy, er enghraifft, gydlynu gweithfeydd stryd, p'un ai o dan ofal yr awdurdod lleol neu'r cyfleustodau, a thrwy fabwysiadu y mesurau mwyaf effeithiol o safbwynt rheoli traffig.
12. Os na fydd yr awdurdod yn llwyddo i reoli traffig yn effeithiol, yna ceir darpariaeth yn y mesur fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol/y Cynulliad Cenedlaethol i benodi cyfarwyddwr traffig ar gyfer yr awdurdod lleol diffygiol (neu grwp o awdurdodau lleol diffygiol). Bydd y Cyfarwyddwr Traffig naill ai'n chwarae rôl monitro/ymyrryd, neu gall hefyd gymryd drosodd rai o swyddogaethau rheoli traffig yr awdurdod.

## Gweithfeydd Stryd

13. Bydd gan y Cynghorau fwy o reolaeth dros pryd a lle y caiff y cyfleustodau wneud gwaith stryd. Bydd y sawl sydd eisiau gwneud gwaith stryd yn gorfod gofyn i'r awdurdod lleol am hawl i wneud hynny – ar hyn o bryd, nid oes ond raid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol o'u bwriad i gynnal gwaith stryd. Bydd gan yr awdurod lleol yr hawl i osod telerau ynghlwm wrth yr hawl, gyda'r nod o leihau unrhyw anghyfleustra.
14. Bydd y drefn orfodi yn cael ei chryfhau, drwy godi dirwy uwch ar gyfleustodau nad ydynt yn cydymffurfio â'r drefn a thrwy ganiatáu i awdurdodau gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Penodedig.

## Gorfodi troseddau traffig drwy'r drefn sifil

15. Bydd y rhan hon o'r mesur yn ymestyn pwerau'r awdurdodau lleol, lle maent wedi dewis gwneud cais am y pwerau, i orfodi troseddau traffig drwy'r llysoedd sifil yn hytrach na thrwy orfodaeth

droseddol gan yr heddlu.

16. Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn cael y pwer i orfodi rhai troseddau symudol (megis anwybyddu rheolau mewn cyffordd bocs neu arwydd traffig un-ffordd)
17. Mae'r mesur yn cynnwys darpariaeth a fydd yn rhoi'r pwer i'r Cynulliad orchymyn awdurdodau lleol i ymgymryd â'r pwerau gorfodi traffig, er mwyn rhyddhau adnoddau i'r heddlu.

## Goblygiadau i Gymru

18. Y Gwasanaeth Swyddogion Traffig- caiff llu o tua 1,400 o swyddogion ei greu gan yr Asiantaeth Priffyrdd yn Lloegr. Caiff y cam cyntaf o'r cynllun ei weithredu yng Ngwanwyn 2004. Caiff y gwasanaeth ei ariannu o gyllideb bresennol yr Adran Drafnidiaeth.
19. Yng Nghymru, amcangyfrifir y bydd angen tua 100 o swyddogion i ddarparu gwasanaeth o'r un safon. Gallai Llywodraeth y Cynulliad naill ai eu cyflogi'n uniongyrchol, neu gellid eu cyflogi gan Asiantwyr Cefnffyrdd y Cynulliad. Er gwybodaeth, rydym eisoes ar y blaen o ran Lloegr, o safbwynt sefydlu canolfannau rheoli traffig, a fydd yn helpu i gydlynu gweithgarwch y gwasanaeth swyddogion traffig.
20. Amcangyfrifir y bydd costau blynyddol o redeg y gwasanaeth yn £3.5 miliwn. Bydd swm llai ar gyfer costau cychwynnol. Byddai'n rhaid dod o hyd i'r arian o gyllideb y Cynulliad. Gan y bydd y swyddogion traffig yn rhyddhau adnoddau'r heddlu, bydd yn bosib i'r adnoddau hynny gael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill sydd â mwy o flaenoriaeth.
21. Rheolwyr Traffig a Chyfarwyddwyr Traffig – Bydd y darpariaethau hyn yn atgyfnerthu cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol mewn perthynas â rheoli'r rhwydwaith. Yn ogystal, byddant yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i hwyluso'r dasg o reoli traffig ar ffyrdd awdurdodau lleol eraill yn ogystal ag ar eu ffyrdd hwy eu hunain. Bydd hyn yn hybu cydweithredu ar draws ffiniau/rhanbarthau; mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei hybu o safbwynt cynllunio trafnidiaeth.
22. Gweithfeydd Stryd – Y bwriad yw y bydd y cynigion yn rhai hunangyllidol. Caiff yr awdurdodau lleol gadw'r arian o'r dirwyon a godir ar y cyfleustodau a byddant hefyd yn cael codi tâl am yr hawl i gloddio stryd. Bydd angen nodi'r trefniadau hyn mewn is-ddeddfwriaeth.
23. Gorfodi Rheolau Parcio – Mae rhai awdurodau lleol yng Nghymru (e.e Castell-Nedd Port Talbot) eisoes yn gweithredu dyletswyddau gorfodi rheolau parcio, a gafodd eu cyflwyno gyntaf yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1991. Mae Sir Gaerfyrddin a Sir Ddinbych wrthi'n gwneud cais i Lywodraeth y Cynulliad am y pwerau hyn. Mae yna rai costau cychwynnol o ran cyflogi swyddogion gorfodi, ond bydd awdurdodau lleol yn cael cadw'r refeniw o'r dirwyon. Y bwriad yw y caiff y costau eu hadennill ymhen 2 i 3 blynedd.

## Cydymffurfio

24. Nid yw'r papur hwn yn codi unrhyw faterion cydymffurfio.

## Goblygiadau Ariannol

25. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar yr adeg hon.

## Themâu Trawsbynciol

26. Gellid cyflwyno'r papur hwn i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth.

## Tasg y Pwyllgor

27. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y Mesur.

**Andrew Davies AC**
**Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**Cyswllt: Manon Phillips, Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth: ffôn: 6512**